

## WHAT CAN YOU DO?

# DYSGU Y TU ALLAN I'R

# YSTAFFEL DDOSBARTH (LOtC) DathluAG



**Er nad mis Mawrth yw'r mis gorau o ran tywydd i wneud hyn, mae llawer o weithgareddau LotC y gallwch eu gwneud dan do mewn addysg grefyddol. Mae mis Dathlu AG hefyd yn darparu ffocws ar gyfer cynllunio gweithgareddau i'w gwneud yn yr awyr agored yn ddiweddarach yn y flwyddyn.**

[Mae'r Maniffesto Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth](#) yn disgrifio sut y gall profiadau fel hyn ddiwallu anghenion pob plentyn. Hefyd, dylai profiadau LOtC sydd wedi'u llunio'n dda ddarparu cyfleoedd i ddatblygu'n ysbrydol, rhoi amser i fyfyrwyr ac i ryfeddu a dwyn ysbrydoliaeth. Mae'r canllaw [Out and About Guidance](#) ar wefan LOtC yn adran ddefnyddiol iawn a fydd yn eich helpu â phob agwedd ar gynllunio.

## O flaen llaw

- We all knRydym i gyd yn gwybod faint o waith ychwanegol sy'n gysylltiedig â mynd â disgyblion ar ymweliadau, ond gall achlysuron tebyg gael effaith barhaus arnynt. Mae cynllunio a pharatoi'n drefnus yn hanfodol wrth lunio profiadau dysgu cymelliadol a chreadigol y tu allan i'r ystafell ddosbarth er mwyn eu gwneud mor werthfawr ag sy'n bosibl.
- Os nad yw'r lleoliad yn rhy bell, ewch ar ymweliad o flaen llaw. Yn ogystal ag archwilio'r lle a chasglu deunydd darllen, efallai y cewch gyfle i drafod â thywysydd neu swyddog addysg. Gellir archwilio materion ymarferol yn llawn hefyd. Ar ôl gweld a thrafod yr hyn sydd gan y lle i'w gynnig, gallwch gynllunio'r profiad dysgu'n fwy effeithiol.
- Os nad oes modd i chi ymweld â'r lle o flaen llaw, bydd galwad ffôn yn hanfodol. Dylai'r lleoliad gael gwybod beth yw'ch amcanion dysgu os yw am ddarparu pecyn cymorth. Mae'n bosibl y bydd opsiynau i addasu neu deilwra profiad ar eich cyfer.

## Yn ystod

- Mae'r modd y mae'r dysgu'n cael ei strwythuro yn ystod yr ymweliad yn allweddol. Er bod taflenni gwaith yn gallu bod yn ddefnyddiol, rydym i gyd yn gwybod nad yw cwestiynau sy'n seiliedig ar wybodaeth syml yn annog disgyblion i feddwl a myfyrio'n ddwfn nac i fod yn greadigol.
- Ceisiwch ganolbwyntio'r amcan dysgu ar gwestiwn allweddol, er enghraifft 'Pam fod pethau'n newid?' Yn y blynyddoedd cynnar neu ddechrau'r cyfnod cynradd, gallai hyn fod yn gysylltiedig â stori am newid (e.e. y Lindys Llwglyd lawn gan Eric Carle, neu Tadpole's Promise gan Jeanne Willis) a gallai ddigwydd yn yr awyr agored megis wrth bwl mewn gardd ffydd. Yn ystod mis Dathlu AG, gallai hwn ganolbwyntio ar fywyd newydd yn y byd naturiol. Gallai'r plant fyfyrwyr am ystyr newid a chael eu hannog i ofyn neu ateb cwestiynau mawr, er enghraifft: 'A fyddai'n beth da i bopeth aros yr un fath?' 'Beth fyddai'n digwydd pe na bai unrhyw beth yn newid?' Gallai hefyd fod yn gyfle i edrych ar dreigl amser. Gweler enghraifft o sut i ddatblygu hyn yn yr [astudiaeth achos](#). Mae'r adran [Sacred Space](#) ar wefan REOnline hefyd yn darparu sawl enghraifft arall o brofiadau LOtC.
- Gallech ddefnyddio'r cwestiwn 'Pam fod pethau'n newid?' yn y cyd-destun uwchradd hefyd a rhoi cyfleoedd da i fyfyrwyr neu greu atebion personol creadigol. Gallai'r disgyblion astudio'r cysyniad Bwdhaidd *anicca* (byrhoedledd) mewn mynachlog neu ganolfan Fwdhaidd. Mae'n bosibl y byddwch wedi gofyn i'r myfyrwyr gynllunio ac ystyried cwestiynau y gallent eu gofyn i Fwdhydd yn ystod yr ymweliad. Gallai cyfarfod neu ddeialog fel hyn ddarparu gwythien gyfoethog o ysbrydoliaeth ar gyfer ymateb barddonol neu artistig.



## Ar ôl

- Ni ddylai'r profiad dysgu ddod i ben ar ddiwedd yr ymweliad. Darparwch amryw o syniadau creadigol y gall disgyblion eu defnyddio i ymateb. Cofiwch roi lle iddynt fyfyrion a holi cwestiynau a byddwch yn barod am yr annisgwyl! Dim ond un disgybl sydd ei angen arnoch sydd wedi gweld rhywbeth arbennig neu rannu cwestiwn 'Tybed' i gael gwythien gyfoethog o addysg grefyddol neu ddatblygiad ysbrydol pellach. Yr ymweliad ei hun fydd y craidd ond dylai gweithgareddau dilynol o safon fod yn rhan hanfodol o'r profiad dysgu. Gallai'r rhain gynnwys gwahodd aelod o'r gymuned ffydd yn ôl i'r ysgol i weld arddangosfa gelf a ysbrydolwyd gan yr ymweliad. Y cwestiwn allweddol yw: Pa effaith barhaus fydd y profiad hwn yn ei gael ar y modd y mae'r disgyblion yn dysgu mewn Addysg Grefyddol?

## Where?

Mae'r rhestr yn ddiwedd! Er enghraifft:

- gardd goed
  - oriel gelf
  - sinema
  - gardd ffydd
  - mynwent
  - cofeb neu gofadail
  - amgueddfa
  - man yn yr awyr agored
  - man yn yr awyr agored gyda chysylltiad crefyddol / ysbrydol
  - gardd heddwch
  - man addoli
  - tiroedd yr ysgol
  - parc cerfluniau
  - theatr
- Yn ystod mis *Dathlu AG*, mae nifer o fannau addoli a mannau cysegredig yn cynnal diwrnodau agored neu ddigwyddiadau arbennig. Edrychwch ar ein calendar i weld beth sy'n digwydd, neu cysylltwch â'ch awdurdod lleol, esgobaeth neu CYSAG am wybodaeth am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn eich ardal. Manteisiwch ar y cyfleoedd arbennig sy'n cael eu cynnig y mis hwn i greu'r cysylltiadau hynny a threfnwch ymweliad.

- Defnyddiwch y mis *Dathlu AG* i greu achos arbennig i ganolbwyntio ar AG. Anogwch eich tîm o uwch arweinwyr i gefnogi profiad LOTC a arweinir gan AG ym mis Mawrth. Soniwch am yr ymweliad yn gynnar a gofalwch eich bod wedi nodi'r amcanion a'r canlyniadau dysgu yn glir.

## Beth?

- Mae profiadau LOTC yn ystod mis *Dathlu AG* yn gyfle i fod yn creadigol ac i feddwl y tu allan i'r blwch. Gallai'r ymweliadau ymwneud ag Addysg Grefyddol yn benodol neu gallent fod yn gysylltiedig â phynciau eraill mewn ffyrdd arloesol a llawn dychymyg. Sut allech greu cysylltiadau creadigol â meysydd megis pensaernïaeth, yr amgylchedd naturiol, technoleg neu fathemateg?
- Ewch ar lwybr crefyddol. Gall llwybrau fel hyn fod yn gyfleoedd i ddisgyblion fod yn ymwybodol o'u hardal leol mewn ffyrdd nad oeddent wedi'u hystyried o'r blaen. Mae gwefan [RE trails](#) yn cynnwys nifer o lwybrau o amgylch y wlad. Mae pob un yn cynnwys map, themâu i'w harchwilio, rhesymau dros fynd ar y llwybr ac amrywiaeth o weithgareddau y gallech eu gwneud. Gallech addasu neu ddatblygu'r syniadau hyn er mwyn archwilio'ch ardal leol.
- Defnyddio amser yn ystod y mis *Dathlu AG* i ddatblygu llwybr lleol. Mae'r wefan [RE trails](#) yn darparu pecyn offer sy'n rhoi cyngor a chanllawiau clir ar bob agwedd ar greu llwybr crefyddol. Dylech gynnwys rhieni, aelodau o gymunedau ffydd a CYSAG. Gwahoddwch nhw i dreialu'r llwybr. Meddyliwch am ffyrdd arloesol o ddod â'r llwybr yn fyw, efallai trwy ddefnyddio technoleg ddigidol, ffotograffiaeth neu fapiau GPS. Mae'r wefan yn awyddus i gynnwys llwybrau crefyddol newydd sy'n cynnig profiadau dysgu o safon uchel. Os ydych yn datblygu llwybr ac yn barod i'w rannu, anfonwch e-bost at [admin@retrails.org.uk](mailto:admin@retrails.org.uk).
- Gallai ymweliad ag oriel gelf ganolbwyntio ar ofyn cwestiynau am y modd y mae artistiaid yn portreadu themâu 'AG mawr' megis y cread, heddwch, maddeuant, brad, diolchgarwch, drygioni neu obaith. Ystyriwch gynnal prosiect ar y cyd ag ysgolion eraill ar yr un thema. Ar ôl yr ymweliad, gallai'r disgyblion ddehongli'r

thema ddewisedig mewn amryw o gyfryngau. Holwch amgueddfa neu oriel leol i weld a fyddent yn barod i gynnal arddangosfa yn ystod mis *Dathlu AG*. Gallech gynnal digwyddiad agoriadol a gwahodd cynrychiolwyr o gymunedau ffydd, CYSAG ac arweinwyr dinesig. Mae prosiectau fel hyn yn galluogi'r cyhoedd i weld pam fod AG yn bwnc mor bwysig a gwerthfawr a byddai'n gyfle i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol trwy gyfarfod a gweithio â disgyblion o ysgolion eraill i gynhyrchu arddangosfa gyhoeddus sy'n procio'r meddwl.

- Gallai cwestiwn megis 'Pam mae'n bwysig cofio?' arwain at ymchwiliad i gofebion, cofadeiliau, arysgrifau neu feddagraffiadau. Gallai'r rhain fod mewn mynwentydd lleol neu wrth gofeb rhyfel neu ymweliad â rhywle megis 'Postman's Park' yn ninas Llundain sy'n coffau hunanaberth dewr neu'r [National Memorial Arboretum](#) yn Swydd Stafford. Mae cofebion yn cynnwys haenau cyfoethog o symbolaeth amlsynhwyrol. Bydd ymweliadau fel hyn yn gyfle i fyfyrion am nifer o gwestiynau sylfaenol ac annog trafodaethau ac archwiliadau o nifer o themâu crefyddol, moesegol a moesol.
- Beth am ganolbwyntio ar wledda ac ymprydio mewn modd gwahanol? Yn ystod y mis *Dathlu AG*, ceir amrywiaeth o wyliau a dathliadau ond ceir nifer o ddiwrnodau ymprydio hefyd:

- ▶ Bahá'í: Ympryd pedwar diwrnod ar bymtheg, Naw-Rúz
- ▶ Cristnogaeth: Dewi Sant, Sant Padrig, Dydd Mawrth Ynyd, Dydd Mercher Lludw, Grawys, Gŵyl Fair
- ▶ Hindwiaeth: Mahashivratri
- ▶ Iddewiaeth: Pasg Iddewig, Gŵyl y Gyfeddach
- ▶ Siciaeth: Hola Mohalla
- ▶ Zoroastrianism: Jamshedi Noruz, Kordad Sal

Wrth ymweld â man addoli, ystyriwch ystyr y wledd neu'r ympryd. Trwy ddefnyddio'r dull hwn o weithio, gall disgyblion ddeall llawer mwy am yr hyn y mae'n ei olygu i berthyn i ffydd. Mae hefyd yn gyfle i feddwl ar lefel uwch ac mae'n mynd y tu hwnt i lefel gweithgareddau labelu dodrefn. Gallech ddefnyddio cwestiynau megis 'Sut mae digwyddiadau fel hyn yn helpu i glymu cymuned grefyddol at ei gilydd?' neu 'Sut mae'r credoau, symbolau neu ddefodau

tanategol yn atgyfnerthu ffydd crediniwr neu'n arwain at gamau positif?' i helpu disgyblion i ganolbwyntio ar agweddau sylfaenol ar ffydd.

- Gan y bydd gan nifer o ysgolion fannau addoli gerllaw, efallai o fewn tafliad carreg, mae'n bosibl na fydd angen i chi drefnu cludiant i gyrraedd yno neu efallai y gallech ofyn am help y rhieni neu ddefnyddio bws mini'r ysgol. Archwiliwch thema fel 'Beth yw ystyr perthyn?'. Trwy hyn gall y disgyblion ymchwilio i gredoau'r gymuned ffydd a'r camau a'r gweithgareddau sy'n tarddu o'r credoau hyn. Ewch â recordwyr digidol a gofynnwch i'r disgyblion gynnal cyfweiliadau. Archwiliwch hysbysfyrdau a thafleuni ac edrychwch sut mae'r gymuned ffydd yn ymarfer ei chredoau. I archwilio'r cwestiwn hwn mewn cyd-destun ehangach, gallech ddefnyddio stori megis 'The Island' gan Armin Greder gyda disgyblion o ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 hyd at y Chweched Dosbarth.
- Mae [Ymddiriedolaeth Gwarchod Eglwysi](#) amryw o syniadau ac adnoddau i'w lawrlwytho ar gyfer CA1 a CA2. Hyd yn oed os nad oes un o'r eglwysi a restrir yn eich ardal chi, gallech addasu sawl un o'r syniadau ar gyfer eglwys leol.



## Amgylchedd yr ysgol

- Cymerwch wal wag, boed y tu mewn neu du allan i'r ysgol, a dyluniwch a chrëwch wal feddwl yn defnyddio rhai o'r cwestiynau mawr y mae disgyblion wedi'u gofyn yn ystod gwersi Addysg Grefyddol.
- Cerddwch gyda'r disgyblion o amgylch yr ysgol. A oes cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol neu fyfyrion? Gweithiwch gyda'r disgyblion, rhieni awyddus neu arddwr i ddatblygu neu adfywio man tawel neu ardd. Gallai'r dyluniad fod yn ysbrydol neu fod â symbolaeth sy'n arwyddocaol i'r ysgol. Bydd siâp, tirlun, deunyddiau a ffurf, lliw ac arogl y planhigion i gyd yn cyfrannu at ddatblygu man arbennig. Gallai'r disgyblion hefyd ddylunio a chreu cerfluniau neu fosaigau i'w gosod ymysg y planhigion. Mae llyfr Shahne Vickery, 'Creating a Multi-Sensory Spiritual Garden in Your School', yn cynnig sawl syniad ar sut i wneud y gorau o leoliad yn yr awyr agored.

- [ARC](#) - mae gwefan y Gynghrair Crefyddau a Chadwraeth yn darparu gwybodaeth gyfoethog am brosiectau cadwraeth yn y wlad hon a thramor a syniadau ar gyfer lleoedd i ymweld â nhw. Mae gwybodaeth ar gael hefyd ar ffydd ac ecoleg er enghraifft. Rhowch “trees” yn y blwch chwilio i ddod o hyd i gyfoeth o wybodaeth o wahanol fathau o ffydd a allai fod yn ysbrydoliaeth i brosiect ecolegol yn seiliedig ar Addysg Grefyddol yn eich cymuned. Byddai prosiect fel hyn yn gadael ei ôl ymhell ar ôl y mis *Dathlu AG*.
- Mae [gwefan REEP](#) yn cynnwys syniadau ysbrydoledig a gwybodaeth am Fwdhaeth a gerddi, creu gardd Islamaidd fach, gerddi Islamaidd y byd a gardd mewn tymor.

## Pwy?

- Mae mis Dathlu AG yn gyfle delfrydol i ddefnyddio profiad LOTC Addysg Grefyddol i greu neu atgyfnerthu cysylltiadau ag ysgolion eraill. Gallech ddewis ysgol leol neu ysgol o ran arall o'r wlad neu bartneriaeth traws-gyfnod lle mae disgyblion hyn a disgyblion iau yn cydweithio. Hysbyswch y cyfryngau lleol o ymweliad partneriaeth ysgol ac edrychwch a allant roi cyhoeddusrwydd iddo. Rhannwch y canlyniadau yn ddigidol â'ch ysgol bartner. Byddai prosiect cyswllt fel hyn yn cynnig sawl cyfle ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.
- A fyddai unrhyw rieni neu aelodau o'r gymuned leol yn gallu cynorthwyo neu helpu i drefnu ymweliad sydd â ffocws crefyddol neu ddatblygiad ysbrydol? Os yw rhieni neu gynorthwyr eraill yn barod i ddod ar yr ymweliad hefyd, dylech dreulio ychydig o amser yn esbonio'r amcanion dysgu i'w galluogi i gynorthwyo disgyblion yn well - bydd hyn yn arwain at well canlyniadau.
- Os oes gennych rywbeth arbennig mewn golwg, cysylltwch â'ch CYSAG lleol. Nid yn unig bod posibilrwydd y gallent ariannu prosiectau bach, mae'n bosibl y byddant hefyd yn gallu rhoi cyngor i chi am adnoddau neu bobl i gysylltu â nhw er mwyn gwella'r profiad LOTC.

## Sut?

- Er eu bod wedi'u llunio ar gyfer y cwricwlwm uwchradd yn wreiddiol, mae sgiliau dysgu a meddwl personol yn ffyrdd ardderchog o alluogi disgyblion o bob oedran i lwyddo. Defnyddiwch brofiadau LOTC yn ystod mis Dathlu AG i ddarparu cyfleoedd ar gyfer: ymholiad annibynnol, meddwl yn greadigol, myfyrio, gweithio fel rhan o dîm, bod yn hunan-reolwr ac ar gyfer cyfranogiad effeithiol.
- Mae [Thinking Actively in a Social Context](#) (TASC) yn darparu fframwaith cylchol lle mae disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac ar y cyd i gynhyrchu, adolygu a chyfleu eu canlyniadau.
- Os mai canlyniad astudiaeth o ardal leol oedd dylunio man cysegredig amlbwrpas y gall mwy nag un enwad neu ffydd ei ddefnyddio, gallech ddefnyddio techneg megis Chwe Het Meddwl Edward de Bono i archwilio gwahanol safbwyntiau am y problemau sy'n gysylltiedig â chreu man tebyg.
- Yn debyg i leoedd ar gyfer profiadau LOTC, mae amrywiaeth y gweithgareddau posibl a fydd yn cyflawni canlyniadau o safon uchel yn eang iawn. Wrth ddyfeisio gweithgareddau, defnyddiwch eiriau sy'n gofyn i ddisgyblion drawsffurfio'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn hytrach na'i chwydu yn ôl i fyny. Er enghraifft: cynllunio, ystyried, dylunio, dyfeisio, a chreu. Mae gweithgareddau fel hyn yn gofyn i'r disgyblion ddefnyddio sgiliau meddwl ar lefel uwch i gynhyrchu canlyniad. Gweithgareddau megis:
  - ▶ barddoniaeth: pumawd, marwnad, beddargraffiadau, haicw, rap
  - ▶ cerddoriaeth: offerynnol, cân
  - ▶ geiriau ysgrifenedig: llythyrau, adroddiadau, [Wordles](#)
  - ▶ celf: tynnu llun, dylunio, peintio, cerflunio
  - ▶ dadl neu drafodaeth
  - ▶ recordio: sain a fideo
  - ▶ ffotograffiaeth: lluniau a ffilm
  - ▶ gludwaith digidol sy'n cyfuno ffilm, testun a delwedd



## Wow!

- Bydd y disgyblion (a'r athrawon) yn cofio'r pethau a wnaeth iddynt ddweud y gair 'wow!' ymhell ar ôl y digwyddiad. Mae mis *Dathlu AG* yn ffocws i ddarparu profiadau cofiadwy mewn Addysg Grefyddol. Yn ogystal â'r "Wow!" digymell a allai ddigwydd ar ôl gweld neu fyfyrion am rywbeth arbennig, dyma ambell i thema Wow arall y gallech eu datblygu i fod yn weithgareddau LOtC:

- ▶ Ffyrdd o Addoli - Ways of Worship
- ▶ Wythnos o Groeso - Week Of Welcome
- ▶ Ehangu ein Byd - Widening Our World
- ▶ Ennill ein Byd - Win Our World
- ▶ Ffenestri ar Ffenestri - Windows On Windows
- ▶ Ffenestr ar y Byd - Window On the World
- ▶ Heb Waliau - With Out Walls
- ▶ Rhyfeddu at Ryfeddodau - Wonder Of Wonders
- ▶ Byd o Ryfeddodau - World Of Wonder

Fel y gwelwch, mae'r holl themâu hyn yn addas ar gyfer ymgysylltu ag eraill - rhieni, y gymuned leol a chymunedau ffydd a datblygu rhywbeth arloesol ac ysbrydoledig!

